Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Tryweryn

**Frongoch**
**Bala**
**Gwynedd**
**LL23 7NT**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Bro Tryweryn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Tryweryn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 60 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 43 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 10 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 7.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 90.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ebrill 2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/01/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Bro Tryweryn yn rhan o ffederasiwn Cysgod Y Foel. Mae'r pennaeth mewn gofal yn cael ei chefnogi gan bennaeth safle yn Ysgol Ffridd Y Llyn a phennaeth safle yn Ysgol Bro Tryweryn.

Mae'r pennaeth mewn gofal wedi creu gweledigaeth glir a chadarn sydd wedi ei seilio ar sicrhau bod lles disgyblion a datblygu eu medrau yn flaenllaw yng ngwaith a bywyd ysgolion y ffederasiwn. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd gan gynnal teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a chynnal trafodaethau gyda grwpiau o ddisgyblion a staff. Er hyn, nid yw aelodau'r corff llywodraethol bob amser yn gweithredu'n ddigon strategol wrth wireddu blaenoriaethau gwella ysgolion y ffederasiwn.

Mae ymddygiad bron yr holl ddisgyblion yn dda iawn. Maent yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd o fewn yr ardaloedd dysgu ac yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth, gan rannu eu syniadau mewn modd aeddfed a synhwyrol. Pan gaiff ddisgyblion gyfle, mae bron bob un yn canolbwyntio'n dda ac yn ymgysylltu'n gydwybodol wrth ymateb i heriau yn eu gwaith. Er hyn, nid yw lefel yr her bob amser yn briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae perthynas waith gynhyrchiol iawn yn bodoli rhyngddynt. Mae staff ar draws ysgolion y ffederasiwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn rhannu syniadau, cynllunio gweithgareddau addysgol diddorol a rhannu arferion da. Maent yn ystyried barn a safbwyntiau'r disgyblion yn bwrpasol wrth gynllunio gweithgareddau dysgu ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn barod i ymgymryd â'r ystod o brofiadau ysgogol a difyr sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Mae'r staff yn cymryd rhan flaenllaw yn y broses hunanwella sydd yn effeithiol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o safon y ddarpariaeth a'r cynnydd ym medrau'r disgyblion. Er hyn, nid yw'r arweinwyr o fewn yr ysgolion wedi cael digon o amser i gydweithio er mwyn datblygu eu rôl a gweithredu'n llawn ar flaenoriaethau gwella'r ysgolion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A2 Cryfhau effeithiolrwydd arweinwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol, er mwyn iddynt gydweithredu ar draws y ffederasiwn yn fwy strategol er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol ar gam datblygiad disgwyliedig. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol a'r rhai sydd o gefndiroedd difreintiedig, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando bron bob un yn datblygu'n hynod effeithiol. Yn y blynyddoedd ieuengaf, mae'r disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau staff ac yn ymateb i gwestiynau yn llwyddiannus. Wrth symud drwy'r ysgol, maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn feddylgar wrth wrando ar farn a syniadau ei gilydd.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn bwrpasol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn trafod yn frwdfrydig yr offer a'r deunyddiau sydd eu hangen arnynt wrth adeiladu tŷ yn yr ardal greadigol. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu'n gelfydd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus wrth drafod pa adnoddau i'w cynnwys mewn dosbarth delfrydol.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae medrau darllen bron bob disgybl yn datblygu'n briodol. Yn y dosbarth derbyn, mae'r rhan fwyaf yn adnabod llythrennau gan eu cysylltu â'u seiniau'n gynyddol gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn darllen testunau syml yn eglur gan ddangos mynegiant cynyddol. Maent yn darllen gyda mwynhad, yn deall ystyr y testun, gan fynegi barn yn briodol. Ar frig yr ysgol, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen Cymraeg. Maent yn darllen yn ddeallus gan amrywio goslef eu llais yn effeithiol. Maent yn defnyddio dulliau pwrpasol i adeiladu ystyr geiriau anghyfarwydd. Er hyn, nid yw medrau darllen Saesneg ychydig o ddisgyblion yn datblygu i'r un safon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar gan ddefnyddio ystod o offer yn yr ardaloedd dysgu yn bwrpasol. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir ac yn cyfateb seiniau a llythrennau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn cofnodi'r prif ddigwyddiadau yn stori'r tri mochyn bach gan ddefnyddio ystod o eirfa gyfarwydd. Mae medrau ysgrifennu'r disgyblion hŷn yn datblygu'n fedrus yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 5, mae llawer o ddisgyblion yn addasu eu harddull a strwythur i wahanol

destunau yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o chwaraewr rygbi Cymru.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. Maent yn adeiladu’n briodol ar ddysgu blaenorol ac yn meithrin medrau a chysyniadau newydd yn addas. Mae medrau cyfrifo llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu’n dda. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn adnabod eilrifau ac odrifau ac yn trefnu rhifau hyd at 100 yn gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o’r pedair rheol ac yn eu defnyddio’n effeithiol i ddatrys problemau rhif. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ffeithiau mesur, er enghraifft wrth ddefnyddio ystod o offer i ddarganfod hyd a lled siapiau cyffredin a chyfansawdd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’r berthynas rhwng arwynebedd a pherimedr. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn creu llinell amser yn fedrus er mwyn dangos datblygiad mewn tai a chartrefi dros gyfnod o amser.

Mae medrau digidol bron bob disgybl yn datblygu'n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o raglenni ar lechen gyfrifiadurol, er enghraifft wrth ddylunio cartrefi gan gynnwys siapiau, lliw a thestun syml. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau digidol bron bob disgybl yn datblygu’n llwyddiannus; er enghraifft, mae’r disgyblion hŷn yn defnyddio rhaglen animeiddio yn effeithiol i symud cymeriadau a chyflwyno sain wrth bortreadu stori gyfarwydd.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn ar draws yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn mwynhau defnyddio ystod o offer a defnyddiau i greu lluniau a modelau. Er enghraifft, fel rhan o’u thema, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn hyderus wrth ddewis deunyddiau gwahanol er mwyn creu lluniau amlgyfrwng o gartrefi ar draws y byd. Mae’r disgyblion hyn yn gweithio’n ddychmygus wrth arbrofi ag amrywiaeth eang o ddeunyddiau a thechnegau, er enghraifft wrth efelychu gwaith arlunwyr Cymreig.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn dda wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy’n hybu eu hiechyd a’u lles yn effeithiol. Mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau cydbwysedd a chydsymud yn dda, er enghraifft wrth ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau corfforol gan gynnwys sesiynau rygbi a phêl-droed wythnosol. Maent yn datblygu eu medrau cydweithio yn llwyddiannus drwy gystadlu mewn twrnameintiau chwaraeon lleol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae presenoldeb bron bob disgybl yn dda ac maent yn hapus yn yr ysgol. Maent yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni am unrhyw beth. Maent o’r farn bod y staff yn eu trin yn deg ac mae perthynas waith gynhyrchiol yn bodoli rhwng y staff a’r disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu lles disgyblion yn ganolog i weledigaeth yr ysgol. Mae’r disgyblion hŷn yn cymryd gofal o’r rhai ieuengaf yn naturiol ac yn aeddfed. Mae bron bob disgybl yn gwrtais a meddylgar. Maent yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos parch a gofal at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig. Maent yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith heb adael i bethau eraill o fewn y dosbarth dynnu eu sylw. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn gweithio'n gyson dda fel unigolion, parau ac mewn grwpiau bychain. Pan gânt gyfleoedd pwrpasol, maent yn dangos gwydnwch wrth ymgymryd â heriau ac yn dyfalbarhau'n effeithiol wrth ddatrys anawsterau a chwblhau tasgau. Fodd bynnag, nid yw lefel yr her o fewn gweithgareddau dysgu bob amser yn ymateb i anghenion y disgyblion. O ganlyniad, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ar lefel sy'n addas i'w gallu.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ymagweddau cadarnhaol at gadw'n iach. Maent yn frwdfrydig a gweithgar yn ystod gwersi addysg gorfforol ac yn mwynhau cymryd rhan yn yr amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, gan gynnwys y sesiynau rygbi a phêl-droed wythnosol a chlwb chwaraeon yr Urdd. Trwy eu themâu, mae gan bron bob un ddealltwriaeth aeddfed o bwysigrwydd yfed a bwyta'n iach.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang, moesegol a gwybodus. Er enghraifft, fel rhan o'r thema "Dyma Ni", mae disgyblion wedi dwysáu eu dealltwriaeth o degwch a chydraddoldeb ac yn gwybod pa mor bwysig yw hi i barchu pawb o fewn cymdeithas.

Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r adborth llafar y maent yn ei dderbyn gan staff wrth ymgymryd â'u tasgau. Maent yn gwybod beth yw eu targedau cynnydd a beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella ansawdd eu gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cyfrannu at yr hyn maent eisiau ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Trwy gymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth ar gychwyn thema newydd, mae disgyblion yn rhannu eu barn ac yn ychwanegu syniadau ynglŷn â'r hyn maent eisiau ei ddysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrando ar eu syniadau ac yn eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau dysgu ar eu cyfer. Yn ddiweddar, mae disgyblion wedi dechrau cyfrannu at ychydig o elfennau o waith yr ysgol trwy'r cyngor ysgol, er enghraifft wrth gyflwyno gwasanaeth ysgol gyfan yn ystod wythnos gwrth-fwlio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw disgyblion yn chwarae rôl ddigon blaengar wrth wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith ehangach yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae perthynas waith agos a chefnogol iawn rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r gyd-berthynas hon yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn meithrin amgylchedd dysgu cynhwysol. O ganlyniad, mae ymddygiad ac agweddau bron bob un o'r disgyblion tuag at eu dysgu yn gadarnhaol. Mae disgyblion yn gwrtais ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n briodol i gyflwyno cwricwlwm sy'n ymateb i ofynion Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol. Maent yn cynllunio'n bwrpasol i ddarparu profiadau buddiol sy'n cwmpasu pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad sy'n effeithiol wrth ennyn diddordeb y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys adnabod cyfleoedd bwriadus i hyrwyddo adnabyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o'u hardal leol a'i

nodweddion amgylcheddol, diwylliannol a hanesyddol. Er enghraifft, fel rhan o'r thema 'Tai A Chartrefi', mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am adeiladau hanesyddol eu hardal, gan gynnwys adeiladau Capel Celyn a foddwyd i greu'r argae lleol yn y 1960au.

Ar draws ysgolion y ffederasiwn, mae athrawon yn cynllunio ar y cyd yn fwriadus er mwyn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destun bywyd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu ffeil o ffeithiau fel rhan o'u hadroddiad yn dilyn ymweliadau gan drydanwr ac adeiladwr lleol i'r ysgol.

Mae'r athrawon yn trefnu eu dosbarthiadau'n  effeithiol. Maent yn cynnwys ardaloedd dysgu lliwgar ac ysgogol lle gall yr holl ddisgyblion gyfranogi mewn ystod eang o brofiadau dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa o brofiadau bwriadus yn ardaloedd allanol yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn manteisio ar gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau llafar a rhif wrth adeiladu tai, gan gyfrif faint o frics sydd eu hangen.

Mae pob aelod o staff yn fodel iaith effeithiol. Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflwyniadau llawer o'r gwersi yn fyrlymus ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn gosod amcanion dysgu clir o fewn y gwersi ac yn cynnwys y disgyblion yn y broses i bennu'r meini prawf llwyddiant. Mae hyn yn effeithiol wrth sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo wrth gwblhau eu tasgau. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Maent yn rhoi adborth llafar bwriadus i ddisgyblion mewn gwersi sy'n eu helpu i wybod beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Er hyn, nid yw'r adborth ysgrifenedig bob amser yn cefnogi disgyblion i wybod beth yw'r camau nesaf yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion drafod ac edrych dros waith ei gilydd, gan gynnig gwelliannau pan fo'n briodol. Trwy'r dechneg 'Wyt ti'n Gallu', mae'r athrawon yn darparu gwaith pwrpasol sy'n galluogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau bob amser ar lefel sy'n galluogi pob disgybl i gyflawni hyd orau eu gallu.

Mae'r athrawon yn cynllunio ymweliadau addysgol ysgogol a chyfleoedd i ymwelwyr ddod i'r ysgol i gyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu o fewn y dosbarth. Er enghraifft, fel rhan o'u themâu, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymweld â'r ardal leol i gyfoethogi eu dealltwriaeth o'r gymdeithas  maent yn byw ynddi. Mae'r disgyblion hŷn wedi cael budd o ymweliad gan gwmni drama wrth ddysgu am daith y 'Mimosa' o Gymru i Batagonia. Maent hefyd yn cael budd o deithiau i wahanol ganolfannau preswyl. Trwy'r ymweliadau hyn, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chyfeillgar gydag ethos gofalgar a chefnogol. Mae staff yn adnabod disgyblion unigol a'u teuluoedd yn dda ac mae hyn yn eu

cynorthwyo i ymateb yn effeithiol i'w hanghenion. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad ac agweddau cadarnhaol y disgyblion tuag at eu dysgu.

Mae iechyd a lles corfforol ac emosiynol disgyblion yn cael lle blaenllaw ym mywyd yr ysgol, gydag amrywiaeth o gyfleoedd i gadw'n heini trwy weithgareddau corfforol, gan gynnwys cynllun rhedeg y trac yn ddyddiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac yn effeithiol. Mae anghenion y disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar trwy sgyrsiau proffesiynol a thrwy ddefnydd o asesiadau pwrpasol. Mae gweithdrefnau ymyrraeth, sy'n cael eu hadolygu'n  rheolaidd, yn ateb gofynion disgyblion yn effeithiol. Mae'r staff yn darparu cynlluniau datblygu unigol cynhwysfawr a chynhelir adolygiadau cynnydd yn rheolaidd, sy'n cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion fesur eu cynnydd yn erbyn eu targedau personol. Mae gan yr ysgolion gysylltiadau da ag amrywiaeth o wasanaethau cynhaliol ac asiantaethau allanol, gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd a seicolegwyr addysg.

Mae athrawon yn darparu arweiniad a chyngor pwrpasol i rieni sy'n eu galluogi i rannu gwybodaeth gyson â'u plant. Er hyn, nid yw'r adroddiadau diwedd blwyddyn i rieni yn cynnig digon o dystiolaeth am ddatblygiad medrau disgyblion o fewn y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae gwasanaethau rheolaidd ac ymweliadau achlysurol gan arweinwyr crefyddol lleol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol, gyda chyfleoedd iddynt fyfyrio ar faterion cyfoes a chrefyddau eraill. Er enghraifft, mae arweinydd cymunedol yn arwain gwasanaethau crefyddol yn rheolaidd gan rannu gwerthoedd pwysig gyda'r disgyblion, gan gynnwys yr angen i ddangos parch at eraill a byd natur.

Mae diwylliant cryf o barch a chydraddoldeb yn bodoli o fewn yr ysgol. Drwy ddathlu achlysuron cenedlaethol fel 'dangos y cerdyn coch i hiliaeth', mae'r staff yn cynllunio'n fwriadus er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o werthoedd fel tegwch, gonestrwydd a'r angen i drin pawb yn deg. Mae'r staff yn cynnal sesiynau dysgu iaith arwyddion 'Makaton' i ddisgyblion sydd yn llwyddiannus wrth ddwysáu eu dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu pobl sydd ag anghenion llythrennedd dwys.

Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, eu treftadaeth a'u diwylliant. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i uniaethu â'r gymuned leol, gan gynnwys astudio lleoliadau o ddiddordeb hanesyddol, gan gynnwys boddi pentref Capel Celyn.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddylanwadu ar rai agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i gyfrannu at gynllunio'r themâu tymhorol, gan rannu eu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu a'r ymwelwyr yr hoffen nhw eu gwahodd i'r ysgol. Fel rhan o'r thema ar 'Dai a Chartrefi' mae hyn wedi arwain at adeiladwr, trydanwr a saer maen yn mynychu'r ysgol i drafod gyda'r disgyblion rinweddau eu swyddi. Mae'r profiadau hyn yn llwyddiannus wrth ennyn diddordeb a perchnogaeth y disgyblion o ran eu dysgu. Er hyn, nid yw arweinwyr yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion y cyngor ysgol ddylanwadu ar agweddau ehangach o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol trwy berfformio mewn amryw gyngherddau a pherfformiadau Eisteddfod yr Urdd. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon lleol, gan gynnwys twrnameintiau rygbi a phêl-droed bechgyn a merched. O fewn y themâu, maent yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft drwy wahodd actor i weithio gyda'r disgyblion er mwyn creu animeiddiad am hanes argae Tryweryn.

Mae diwylliant cryf o ddiogelu yn bodoli yn yr ysgol. Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol. Mae prosesau'r ysgol ar gyfer sicrhau prydlondeb a phresenoldeb cyson disgyblion yn gadarn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn yr amser byr ers ei phenodiad, mae'r pennaeth mewn gofal wedi sefydlu gweledigaeth gadarn ar gyfer ysgolion y ffederasiwn. Mae hyn wedi'i seilio ar sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau mewn awyrgylch deuluol a chynhwysol. Mae ffocws cadarn yn cael ei roi ar sicrhau bod lles staff a disgyblion yn cael rhan flaenllaw ym mhob elfen o waith yr ysgolion. Erbyn hyn, yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd staffio, mae trefniadau arweinyddiaeth mwy cadarn yn cychwyn cael eu rhoi ar waith ar draws yr ysgolion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod athrawon y ddwy ysgol yn cydweithio'n fwy agos wrth gyd-gynllunio a rhannu arferion da. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at rai gwelliannau buddiol yn y ddarpariaeth i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r pennaeth mewn gofal ac arweinwyr safle ysgolion Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn wedi cael digon o amser i weithredu'n llawn ar flaenoriaethau gwella. O ganlyniad, mae'n rhy gynnar i fesur effaith eu gwaith ar welliannau yn y ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion.

Mae'r pennaeth mewn gofal a'r staff yn cynnal amrediad buddiol o weithgareddau hunanwerthuso sydd wedi eu hamserlennu'n bwrpasol ar draws y flwyddyn. Maent yn craffu ar waith disgyblion i fesur eu cynnydd ac addasu'r ddarpariaeth yn briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau. Maent yn arsylwi gwersi gan ganolbwyntio ar ddulliau addysgu er mwyn gwerthuso pa mor effeithiol mae athrawon yn annog agweddau fel annibyniaeth a chydweithio ymysg disgyblion.

Mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn arwain at gynllun datblygu ysgol priodol sy'n nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwneud cynnydd. Mae'r blaenoriaethau wedi eu rhannu'n gamau datblygiad synhwyrol, ac mae amserlen gweithgareddau, ynghyd â meini prawf llwyddiant a cherrig milltir penodol, yn cael eu cynnwys. Mae'r gweithgareddau gwella'r ysgolion, gyda chyfraniad y staff a swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol, eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Yn ogystal, mae'r pennaeth mewn gofal yn cydweithio'n agos â chydweithwyr mewn ysgolion lleol er mwyn rhannu arferion a phrofiadau mewn meysydd penodol, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar weithdrefnau asesu o fewn yr ysgolion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn chwarae rôl ymarferol wrth gefnogi a hyrwyddo datblygiad yr ysgol. Maent yn cefnogi'r pennaeth mewn gofal yn frwd mewn agweddau pwysig fel sicrhau sefydlogrwydd staff ar draws ysgolion y ffederasiwn. Mae ganddynt drefniadau priodol er mwyn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach i

ddisgyblion ar draws y ffederasiwn. Maent yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd gan gynnal cyfarfodydd gyda staff a thrafod cynnydd dysgu gyda'r disgyblion. Maent yn cynnal teithiau dysgu buddiol, gan graffu ar waith disgyblion a thrafod eu cynnydd gydag athrawon. Mae'r gwaith hwn yn helpu datblygu dealltwriaeth y llywodraethwyr o wahanol agweddau'r ddarpariaeth. Maent yn derbyn gwybodaeth amserol gan y pennaeth mewn gofal am gynnydd yr ysgolion yn erbyn eu  blaenoriaethau gwella. O ganlyniad, mae gan aelodau'r corff ddealltwriaeth briodol o rai o gryfderau'r ysgolion a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Er hyn, nid yw aelodau'r corff llywodraethol bob amser yn gweithdredu'n ddigon strategol wrth wireddu blaenoriaethau gwella ysgolion y ffederasiwn.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgolion yn effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau addas am wariant er budd a phrofiadau'r disgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ardaloedd allanol ar gyfer y disgyblion ieuengaf. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfoethogi'r ddarpariaeth a'r profiadau dysgu ar gyfer y disgyblion hyn. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i ddarparu sesiynau hybu lles disgyblion, sydd yn ei dro yn cael effaith fuddiol ar hyder ac ymddygiad disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae'r staff yn cael cyfleoedd buddiol i ddilyn hyfforddiant sy'n ymwneud â blaenoriaethau cyfredol y ffederasiwn, neu'n codi o'u diddordebau a'u hanghenion datblygiad personol. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar feithrin medrau lles disgyblion yn eu harfogi'n effeithiol i gefnogi disgyblion sy'n fregus neu'n wynebu heriau penodol. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad staff wedi eu sefydlu'n gadarn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru:Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024